



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mesurau Bioddiogelwch Cymru

**Rhestr wirio hunanasesu ar gyfer ceidwaid
heidiau bach o ddofednod ac adar caeth arall**



Dylai pob ceidwad heidiau o ddofednod ac adar caeth eraill yng Nghymru (llai na 500 o adar) lenwi'r ffurflen hon (a'i diweddarau yn dilyn unrhyw newid mewn amgylchiadau) a'i chadw fel cofnod. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol pan fydd Parth Atal Ffliw Adar ar waith yng Nghymru.

Efallai y gofynnir i geidwaid gynhyrchu rhestr wirio wedi'i chwblhau i'w harchwilio.

Enw'r Fferm/Safle:

Cyfeiriad:

Rhif ffôn/ffôn symudol Cyswllt:

Rhif y Daliad (*Os yn berthnasol*):

Rhif EMI (*Os yn berthnasol*):

Math o fenter

(*wyau, cig, bridio, Arddangos, bridiau cymysg, deorfa ac ati*)

Nifer arferol y stoc a'r rhywogaethau

Cwblhawyd gan:

Enw:

Dyddiad:

Llofnodwyd: (*Printiwch mewn llythrennau bras*)

Statws: (*e.e. Perchennog, Ceidwad ac ati*)

Cofrestru

Ydych chi wedi cofrestru ar Gofrestr Dofednod Prydain Fawr? Rhaid i bob ceidwad adar gofrestru eu hadar (ac eithrio'r psittacines (parotiaid, chocatwod a bydjis) a'r passerines (adar bach sy'n clwydo, fel llinosiaid, adar y to, titwod, drywod a sgrech y coed) hynny sy'n cael eu cadw'n barhaol dan do naill ai o fewn annedd, neu o fewn tŷ adar ar yr un safle heb fynediad i awyr agored) – mae hyn yn ofyniad cyfreithiol. [Cofrestru dofednod – GOV.UK](#)

Bioddiogelwch

Mae bioddiogelwch yn weithgaredd o ddydd i ddydd. Wrth brynu dofednod ac adar caeth arall, dylai ceidwaid ystyried eu hanghenion a'u gofynion. Yn bwysicach fyth os bydd gorchymyn lletya gorfodol oherwydd ffliw adar sut y gallwch letya neu eu cadw dan do.

1. Manylion y safle

Tynnwch lun neu atodwch gynllun o'r safle, pwyntiau bio-ddiogelwch, dipiau traed

Holiadur

2. Pwy sy'n delio gyda'ch adar o ddydd i ddydd? Rhowch enw

3. Ydy pob Aelod o'r Teulu a'r Gweithwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb am Fioddiogelwch gan gynnwys trosglwyddo haint yn ddamweiniol.

Ydyn Nac ydyn

4. Ydy pawb yn ymwybodol o bwysigrwydd newid esgidiau ac oferôls bob amser, cyn mynd i mewn a gadael yr ardal adar byw/llety a gadael esgidiau wedi'u defnyddio ar y safle?

Ydyn Nac ydyn

5. Bioggiogelwch Cyffredinol

i. Ydych chi'n sicrhau bod bwyd a dŵr wedi'u gorchuddio o dan do caled ac nad yw adar gwyllt yn gallu eu cyrraedd?

Ydw Nac ydw

ii. Ydych chi'n sicrhau bod cafnau, bowlenni a llestri bwyd a diod yn cael eu glanhau yn rheolaidd?

Ydw Nac ydw

iii. Ydych chi'n storio bwyd mewn lle diogel?

Ydw Nac ydw

iv. Ydych chi'n storio eich deunydd gorwedd a'ch maethu mewn dull bioggiogel?

Ydw Nac ydw

v. Ydych chi'n sicrhau bod stoc drig/cynhyrchion anifeiliaid (e.e. wyau, bwyd anifeiliaid wedi'u difetha, gwastraff cyffredinol, carcasau) yn cael eu gwaredu'n gywir. Am fwy o wybodaeth gweler: [Fallen stock and safe disposal of dead animals – GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk)

Ydw Nac ydw

6. A yw eich diheintydd wedi'i gymeradwyo gan y Llywodraeth?

Am restr o ddiheintyddion wedi'u cymeradwyo edrychwch ar:

www.disinfectants.defra.gov.uk/DisinfectantsExternal/Default.aspx?Module=ApprovalsList_SI

Pa ddiheintyddion ydych chi'n eu defnyddio?

Pa mor gryf yw?

Pa mor aml ydych chi'n ei newid?

A yw cynhwysydd y dip esgidiau wedi'i orchuddio?

Do Naddo

7. Rheoli Cnofilod a Phlâu

Ydych chi'n defnyddio contractwr?

Ydw Na

Eu dal eich hunan?

Ydw Na N/A

Arall?

Manylion y Contractwr neu Arall

8. Rhywogaethau dofednod amrywiol

Os yn cadw amrywiol rywogaethau, a yw eich hwyaid a'ch gwyddau ar wahân i fathau eraill o adar?

Ydyn Nac ydyn N/A

Os "Ydyn", disgrifiwch y trefniadau presennol

9. Oes gan eich adar fynediad at byllau a chyrsgiau dŵr?

Mae pyllau a chyrsgiau dŵr yn denu adar dŵr gwyllt, fel hwyaid, gwyddau ac elyrch sy'n gallu cario'r firws ffliw adar a'i ledaenu heb ddangos unrhyw arwyddion o salwch.

Oes Nag oes

Os oes, rhowch fanylion

* Nodwch, os yw Parth Atal Ffliw Adar yn cael ei roi ar waith, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i geidwaid leihau/atal mynediad at gyrff dŵr ar gyfer eu hadar ar eu safle, oherwydd y risg o haint yn cael ei ledaenu gan adar y dŵr

10. Os cyflwynir llety gorfodol o dan ofynion AIPZ, mae'n rhwymedigaeth gyfreithiol bod yr holl adar yn cael eu rhoi dan do a'u cadw yno. Dylai manau rhedeg/hedfan gael eu gorchuddio â naill ai wyneb caled neu orchudd rhwyll.

Disgrifiwch sut fydd eich adar yn cael eu cadw dan do (os yn berthnasol)

Cadwch y ffurflen wedi'i chwblhau yn eich cofnodion fel y gellir ei chynhyrchu ar gais gan lechyd Planhigion Anifeiliaid, Awdurdod Lleol neu asiantaethau eraill. Dylid adolygu'r rhestr wirio hunanasesu yn flynyddol.

Arwyddion o fflw adar

Mae adar sydd wedi'u heintio â'r straen mwyaf difrifol o fflw adar, a elwir yn fflw adar pathogenig iawn (HPAI), fel arfer yn dangos rhai (neu'r cyfan) o'r arwyddion canlynol:

- marwolaeth sydyn
- pen wedi'i chwyddo
- llygaid caeedig a chymylog
- syrthni ac iselder
- gorwedd i lawr a diffyg ymateb
- diffyg cydsymud
- bwyta llai nag arfer
- syrthni
- cynnydd neu ostyngiad sydyn yn y dŵr y mae'n yfed
- ysgwyd y pen a'r corff
- gostwng yr adenydd
- llusgo coesau
- troi y pen a'r gwddf
- chwyddo a lliw glas ar y crib a'r tagellau
- gwaedlif a chochni ar y coesau ac o dan groen y gwddf
- anawsterau anadlu fel agor y geg (anadlu ceg), sŵn trwynol (sŵn peswch), tisian, gyrglo, neu ratlo
- twymyn neu gynnydd amlwg yn nhymheredd y corff
- baw dyfrllyd lliw gwahanol neu rydd
- rhoi'r gorau neu ostyngiad sylweddol mewn cynhyrchu wyau.

Gall rhai rhywogaethau fel hwyaid, gwyddau ac elyrch gario'r firws fflw adar a'i ledaenu heb ddangos unrhyw arwyddion o salwch.

Efallai na fydd adar sydd wedi'u heintio â'r straen llai difrifol o fflw adar, o'r enw fflw adar pathogenig isel (LPAI) yn dangos arwyddion clir o'r haint. Efallai y bydd ganddynt broblemau anadlu ysgafn. Gall yr arwyddion hyn ddangos fflw adar, ond dim ond trwy brofion labordy y gellir cadarnhau'r firws fflw adar.

Os ydych yn poeni am iechyd eich adar, siaradwch â'ch milfeddyg preifat. Os ydych yn amau fflw adar, rhaid i chi neu'ch milfeddyg roi gwybod i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) ar unwaith hyd yn oed os yw'r arwyddion yn ysgafn.

Rhowch wybod am amheuan am fflw adar mewn dofednod neu adar caeth eraill:

Os ydych yn amau fflw adar mewn dofednod neu adar caeth eraill, rhaid i chi roi gwybod amdano ar unwaith drwy ffonio 03003 038 268 (os ydych yng Nghymru).

Mae fflw adar yn [glefyd hysbysadwy](#) mewn dofednod ac adar caeth eraill. Os nad ydych yn cofnodi hyn, byddwch yn torri'r gyfraith.